


Eich apwyntiad mesurydd Deallus

Fe wnaethom ysgrifennu atoch yn ddiweddar ynglŷn â'ch apwyntiad mesurydd Deallus. Hoffai ein gosodwr ddod i'ch cartref i osod eich mesurydd(ion) Deallus newydd. Gallwch weld dyddiad ac amser eich apwyntiad ar flaen eich llythyr.

Bydd yn edrych yn debyg i'r enghraifft hon:



Data ynni deallus

Byddwn yn cymryd darlenniad unigol o'ch mesurydd(ion) Deallus unwaith y dydd oni bai eich bod chi'n dweud wrthym yn wahanol.

Beth fydd angen i chi ei wneud:

- 1 Cadarnhau neu aildrefnu eich apwyntiad gan ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y blwch glas ar ochr dde eich llythyr.**

Mae gwasanaethau cyfieithu ar gael pan fyddwch chi'n ein ffonio.

- 2 Darllenwch: Byddwch barod am eich mesurydd(ion) Deallus**

Bydd yn dweud y cyfan wrthyfch am osod y mesurydd Deallus a beth fydd angen i chi ei wneud cyn y diwrnos y caiff ei osod.

Ydych chi'n gwsmer sy'n talu ymlaen llaw?

Dylai eich cerdyn(cardiau) ail-gyflenwi gyrraedd o fewn ychydig ddyddiau i'r gosod. Os nad ydynt yn cyrraedd cyn bod arnoch chi eu hangen, gallwch ail-gyflenwi gydag ID y cerdyn(cardiau) a ddangosir yn eich llythyr.

Byddant yn edrych yn debyg i'r enghraifft hon:

Electricity Payment Card ID is:

6335240319623375203

← Hwn yw ID eich Cerdyn Talu Trydan

Gas Payment Card ID is

6335240319623375203

← Hwn yw ID eich Cerdyn Talu Nwy

Os na allwch chi ail-gyflenwi, peidiwch â phoeni – bydd eich cyflenwad yn dal wedi'i gysylltu am 7 diwrnod gwaith ar ôl inni fod. Dylai eich taliad cyntaf fod yn ddigon i dalu am yr ynni rydych wedi'i ddefnyddio o'r diwrnod inni osod y mesurydd(ion), a'r hyn mae arnoch eisiau'i ail-gyflenwi.

Gallwch ail-gyflenwi mewn unrhyw Paypoint, Payzone, Swyddfa Bost – neu dros y ffôn, ap npower ac [npower.com/mynpower](https://www.npower.com/mynpower).

Os hoffech gael gwybodaeth gennym mewn Braille neu brint bras, cysylltwch â ni o linell dir ar 0800 073 3000 neu ar 0330 100 3000 o ffôn symudol.

Galwadau ffôn: Efallai y byddwn yn monitro a/neu yn recordio galwadau i ddibenion diogelwch, ansawdd neu hyfforddiant. Os ffoniwch ni ar rif 0800 dylai eich galwad fod am ddim o bob ffôn symudol ac am ddim yn gyffredinol o bob llinell tir. Ni fydd ein ffonio ni ar rif 0330 yn costio dim mwy ichi na rhifau 01 neu 02 o linellau tir neu symudol. Os ydych chi'n cael 'munudau cynwysedig' gyda'ch pecyn, bydd galwadau i rif 0330 yn rhan o'r rhain.

Mae npower yn fasnachnod cofrestredig a dyma enw masnachu Npower Limited (Rhif Cofrestredig 3653277), Npower Gas Limited (Rhif Cofrestredig 2999919), Npower Northern Limited (Rhif Cofrestredig 3432100) sydd hefyd yn gweithredu fel asiant dros Npower Northern Supply Limited (Rhif Cofrestredig 2845740) ar gyfer cyflenwi trydan, Npower Yorkshire Limited (Rhif Cofrestredig 3937808) sydd hefyd yn gweithredu fel asiant dros Npower Yorkshire Supply Limited (Rhif Cofrestredig 4212116) ar gyfer cyflenwi trydan. Maent i gyd wedi eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr. Swyddfeydd Cofrestredig: Windmill Hill Business Park, Whitehill Way, Swindon, Wiltshire, SN5 6PB.



Byddwch barod am eich
Mesurydd(ion) Deallus

Y pethau pwysig mae angen ichi eu
gwneud a'u gwybod cyn inni ddod



nPower

Pam fod mesuryddion Deallus yn newyddion da:

- Dw i'n gallu gweld beth dw i'n ei ddefnyddio mewn punnoedd a cheiniogau
- Dw i'n gwybod pa offer sy'n costio fwyaf i'w rhedeg
- Mae fy miliau bob amser yn gywir*
- Does dim angen imi anfon darlleniad mesurydd*
- Dw i'n gallu gweld fy nefnydd o ynni ar-lein
- Mae gen i fwy o reolaeth ar fy nefnydd o ynni

Fe gewch declyn dangos ynni Deallus

Gallwch weld faint o ynni rydych chi'n ei ddefnyddio o gwmpas eich cartref



* Ni byddwch yn derbyn bil a amcangyfrifir oni bai fod problem wrth gasglu neu brosesu darlleniad. Yn gyffredinol, yr unig adeg y bydd angen i ni ymweld â chi yw pan fydd gofyn inni gynnal gwiriad diogelwch rheolaidd.

Byddwch yn barod am eich mesurydd(ion) Deallus

Ticiwch:



Gwnewch yn siŵr nad oes dim rhwystrau

fel y gall ein gosodwyr fynd at eich mesurydd(ion) a gweithio'n ddiogel



Dylech gael eich cod larwm diogelwch wrth law yn hawdd

gan y gall larwm eich tŷ seinio yn ystod y gwaith gosod



Ceisiwch gyngor os yw eich offer nwy yn ddiffygiol

byddwn yn cwblhau archwiliad gweledol o'r offer nwy er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel, ond os bydd arnoch angen cyngor cyn inni ddod, ewch igassaferegister.co.uk neu ffoniwch **0800 408 5500**



Gadewch inni wybod am unrhyw anghenion ychwanegol

fel anabled, neu gyflwr meddygol na wyddom amdano eisoes, sy'n gofyn am gyflenwad ynni di-dor.

Hefyd, os ydych chi'n credu y gallai fod yn anodd cyfathrebu ar y diwrnod, yna byddwch cystal â threfnu i rywun arall fod yn bresennol



Helpwch ni i gael hyd ichi'n hawdd

gadewch inni wybod os yw'n anodd cael hyd ichi neu os yw parcio yn broblem



Mae angen i oedolyn fod yn bresennol ar y diwrnod

oherwydd byddwn yn diffodd eich cyflenwad, yn cynnal gwiriadau diogelwch ac yn dangos sut mae popeth yn gweithio



Ar ddiwrnod y gosod



1. Byddwn yn cysylltu â chi

naill ai ar y ffôn neu neges destun os oes gennym y rhif. Gallwch ddiweddarau eich manylion pan fyddwch yn cadarnhau eich apwyntiad.



6. Byddwn yn dangos ichi sut mae'n gweithio

gan gynnwys arddangos eich teclyn ynni Deallus a sut y gall eich helpu i arbed ynni ac arian



5. Byddwn yn rhoi eich ynni yn ôl ymlaen ac yn tacluso ar ein hôl

byddwn hefyd yn cwblhau archwiliad gweledol o'ch offer nwy fel bod popeth yn ddiogel a chadarn



2. Byddwn yn dangos ichi brawf o'n ID a gallwn ddweud cyfrinair os gadewch inni wybod ymlaen llaw

byddwn hefyd yn dangos ichi gerdyn cofrestru Diogelwch Nwy



3. Byddwn yn diffodd eich cyflenwad ynni

fel arfer am tua 30 munud yr un ar gyfer nwy a thrydan



4. Byddwn yn gosod eich mesurydd(ion) Deallus

mae hyn fel arfer yn cymryd tuag awr ar gyfer pob mesurydd

Eich data ynni Deallus

Caiff eich data ynni ei anfon yn awtomatig atom – a chi sydd i benderfynu faint o wybodaeth a gasglwn

Po fwyaf o wybodaeth am ynni a gasglwn y gorau y gallwn eich helpu chi i'w ddeall a rhoi cyngor perthnasol ar arbed ynni. Byddwn yn ei ddefnyddio i gymharu ac adnabod tueddiadau ymysg aelwydydd tebyg i'w gilydd, fel y gallwn ddatblygu cynhyrchion a gawsanaethau mwy addas – a phrynu a chynhyrchu ein hynni yn fwy effeithlon yn y dyfodol.

Diogelu eich data

Byddwn yn cymryd gofal mawr o ddata eich mesurydd Deallus. Ni fyddwn yn ei rannu gyda sefydliadau eraill ond pan fydd yn ofynnol inni: er mwyn rhwystro twyll, yn unol â'r gyfraith, neu gyda cwmnïau sy'n gweithredu ar eich rhan.

Mae mwy o wybodaeth am eich dewisiadau o ran data a sut y caiff eich data ei ddefnyddio yn nhelerau ac amodau eich cyflenwad domestig ar [npower.com/standardterms](https://www.npower.com/standardterms)- neu gallwch ofyn am gopi trwy gysylltu â ni.

Os byddwn yn gosod eich mesurydd(ion) Deallus ar fyr rybudd (llai na 7 diwrnod), byddwn fel arfer yn cymryd darlleniadau misol ar y cychwyn. Ar ôl hyn byddwn wedyn cymryd darlleniadau dyddiol oni fyddwch chi'n dweud yn wahanol wrthym.

Gallwch newid eich dewis data ar unrhyw adeg. Gadewch inni wybod trwy eich cyfrif ar-lein, e-bost, ar y ffôn neu drwy'r post.

Dyma eich dewisiadau:



Darlleniadau bob hanner awr

Caiff eich defnydd o ynni ei gofnodi bob hanner awr a'i gasglu gennym unwaith y diwrnod. Byddem yn argymhell y dewis hwn am olwg mwy cyflawn o'ch defnydd o ynni ac fe gewch offer ar-lein, adroddiadau a chyngor personol ar effeithlonrwydd ynni.



Darlleniadau dyddiol

Os na ddywedwch wrthym yn wahanol, byddwn yn casglu darlleniad unigol o'ch mesurydd(ion) bob dydd, fel y gallwn ni anfon biliau cywir atoch a lleihau'r angen i amcangyfrif eich biliau.*



Darlleniadau misol

Byddwn yn casglu darlleniad unigol unwaith y mis – yr isafswm y gallwn ei gymryd i ddibenion biliau a rheoleiddio. Yn achlysurol, byddwn yn cymryd darlleniadau eraill os yw eich cyfrif yn newid, os bydd angen inni ddatrys ymholiad neu os oes problem gyda'ch mesurydd.

Cwestiynau cyffredin

C. A fydd yn rhaid imi dalu am osod fy mesurydd(ion) Deallus?

Na, does dim cost ychwanegol am osod eich mesurydd(ion).

C. Pam ydych chi'n gosod mesuryddion Deallus?

Rydym yn cefnogi'r llywodraeth wrth ddiweddarau system ynni y Deyrnas Unedig, gan gynnwys mesuryddion Deallus i bob cartref erbyn 2020.

C. A oes rhaid imi gael mesurydd Deallus?

Na, nid yw'n orfodol – ond os ydych chi'n cael un, bydd gennych well dealltwriaeth o sut i reoli eich costau ynni. Os nad yw hyn yn addas i chi ar hyn o bryd, gadewch inni wybod.

C. Allaf i newid tariff neu gyflenwr?

Gallwch, o fewn telerau ac amodau eich tariff presennol. Os oes arnoch eisiau newid cyflenwr, mae'n werth gwirio i weld a allant ddefnyddio eich mesurydd(ion) Deallus – oa na allant ar hyn o bryd, yna efallai y bydd angen i chi anfon darlleniadau mesurydd hyd nes y gallant – ac ni fydd eich sgrin ond yn dangos eich defnydd o ynni mewn kWh.

C. Beth sy'n digwydd os yw un o'n tanwyddau gan gyflenwr gwahanol?

Byddant yn cysylltu'n uniongyrchol gyda chi os bydd angen newid y mesurydd hwnnw.

C. Tenant ydw i, allaf i hefyd gael mesurydd Deallus?

Gallwch, ond awgrymw'n eich bod yn cysylltu â'ch landlord yn gyntaf.